Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Gwybodaeth am frechu ac imiwneiddio ar gyfer rheolwyr cyn-ysgol

| Galwad i weithredu | |
|---|---|
| | Darllenwch y llythyr hwn |
| | Rhannwch |
| | Trafodwch |

Mae brechu yn achub bywydau ac yn helpu i atal hyd at 5 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn. Mae'n fesur allweddol wrth gadw plant yn iach a rhoi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd.

Mae meithrinfeydd a chyn-ysgolion yn chwarae rhan werthfawr wrth atal achosion o glefydau drwy hyrwyddo brechu plant.

Rydym am eich helpu i sicrhau bod pob plentyn a staff yn eich cyn-ysgol wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac wedi'u brechu'n llawn yn unol â'r brechiadau arferol a argymhellir.

| Gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid | Gwybodaeth i staff |
|---|---|
| Gallwch weld llythyr y rhieni a'r gwarcheidwaid **yma**.<br><br>**Cam Gweithredu**<br><br>1. Rhannwch gyda rhieni a gwarcheidwaid.<br><br>2. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen y llythyr, llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atoch chi. | Gallwch weld y llythyr i staff cyn-ysgolion **yma**.<br><br>**Cam Gweithredu**<br><br>1. Rhannwch gyda'ch staff.<br><br>2. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen y llythyr, llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atoch chi.<br><br>3. Os oes unrhyw aelod o staff wedi methu cael eu brechiadau, ystyriwch greu cynllun gweithredu gyda nhw. |
| **Pam?**<br><br>Bydd y llythyrau hyn yn rhoi cofnod i chi o hanes brechu plant a staff.<br><br>Os bydd achosion o glefyd, bydd cael mynediad at y manylion brechu hyn yn caniatáu ichi ymateb yn gyflym ac yn effeithlon. | |

**Beth arall alla i ei wneud?**

Gallwch arddangos adnoddau i rannu gwybodaeth am frechu ac imiwneiddio. Gallwch lawrlwytho taflenni a phosteri am frechu ac imiwneiddio, a'u harchebu am ddim, o: **icc.gig.cymru/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**

Mae cysylltiadau defnyddiol **yma**.

Mae'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, sy'n hyrwyddo iechyd a chynaliadwyedd mewn cyn-ysgolion yng Nghymru, ar gael i'ch cefnogi. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: **icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cynlluniau-ysgolion-iach-rhwydwaith-cymru/**

Sganiwch fi i gael rhagor o wybodaeth am frechu ac imiwneiddio

Diolch am eich cefnogaeth i sicrhau bod y plant a'r staff yn eich gofal wedi cael eu brechiadau diweddaraf.